

FFURFLEN RHW29

HYSBYSIAD O FWRIAD LANDLORD I DERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT OHERWYDD ANFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i gyd-ddeiliad contract o dan adran 225(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu dod â hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract i ben o dan y contract meddiannaeth am mai un o delerau'r contract meddiannaeth yw bod rhaid i gyd-ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref a bod y landlord yn credu nad yw cyd-ddeiliad y contract yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Cyd-ddeiliad y Contract <i>Y mae'r landlord yn credu nad yw'n meddiannu'r annedd ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu</i>
Enw:	Enw:
Cyfeiriad:	Cyfeiriad (os yw'n hysbys):
Rhan C: Cyd-ddeiliad Contract Arall neu Gyd-ddeiliaid Contract Eraill	Rhan D: Annedd
Enw(au):	Cyfeiriad:
<i>Rhaid i'r landlord roi copi o'r hysbysiad hwn i bob un o'r cyd-ddeiliaid contract eraill.</i>	
Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Ddod â Hawliau a Rhwymedigaethau'r Person a Enwir yn Rhan B i Ben	
Mae'n ofynnol i gyd-ddeiliad contract feddiannu'r annedd os yw'n un o delerau'r contract meddiannaeth (sut bynnag y mynegir y telor hwnnw) bod rhaid iddo feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.	
Mae contract meddiannaeth yr annedd uchod yn darparu fel a ganlyn:	
<i>Rhowch y telor yn y contract meddiannaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyd-ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.</i>	

Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Ddod â Hawliau a Rhwymedigaethau'r Person a Enwir yn Rhan B i Ben (parhad)

Mae'r landlord yn credu nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu.

Os yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu, **rhaid** iddo hysbysu'r landlord yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod rhybuddio ar [dyddiad]

.....

Yn ystod y cyfnod rhybuddio, bydd y landlord yn gwneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i'w fodloni ei hun nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu.

Os yw'r landlord wedi ei fodloni, ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio, nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu, mae'r landlord yn bwriadu dod â hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract o dan y contract meddiannaeth i ben.

Os nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn ymateb erbyn y dyddiad uchod gan ddweud ei fod yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu, mae'n bosibl y gall y landlord ddod â hawliau a rhwymedigaethau'r person hwnnw i ben o dan y contract meddiannaeth drwy ddyroddi hysbysiad pellach (**Ffurflen RHW30**).

Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B.

Rhan F: Llofnod

Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:

Dyddiad:

.....

.....